Adroddiad ar gyfer

**Appletree Day Nursery (WALES) Redwick Ltd**

North Row
Redwick
Ger Magwyr
NP26 3DX

Dyddiad yr arolygiad: **Tachwedd 2025**

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

ac

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Appletree Day Nursery (WALES) Redwick Ltd

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Appletree Day Nursery |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n gymwys) | Jane Alsop |
| Person â chyfrifoldeb | Ellen Rodgers a Lauren Williams |
| Nifer y lleoedd | 60 |
| Ystod oedran y plant | 0-12 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 oed | 30 |
| Nifer y plant sy'n cael cyllid ar gyfer addysg gynnar | 7 |
| Diwrnodau / amseroedd gweithredu | Dydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 7.30am a 6.00pm |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac ydy |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r lleoliad hwn yn darparu'r Cynnig Gofal Plant? | Ydy |
| Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg | Nid yw'r darparwr yn hyrwyddo anghenion y bobl o ran y Gymraeg a diwylliant Cymru ac mae'n rhaid gwella hyn. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 15 Ebrill 2024 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Hwn oedd arolygiad cyntaf Estyn |
| Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn | 11/11/2025 |

# Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol)** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Achosion o ddiffyg cydymffurfio

Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Datblygu systemau arsylwi a chynllunio ymhellach er mwyn helpu ymarferwyr i nodi'r camau nesaf yn natblygiad y plant

A2 Sicrhau bod yr amgylchedd awyr agored i blant iau yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol a'i fod yn cynnig ystod eang o gyfleoedd chwarae

A3 Ceisio barn yr ymarferwyr yn rheolaidd a'i hystyried er mwyn gwella gwaith tîm ymhellach a sicrhau bod pob un o'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut mae'n bwriadu ymdrin â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Llesiant: Da

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac yn mynegi eu hunain yn hyderus. Maent yn cael llawer o gyfleoedd i wneud dewisiadau a phenderfynu sut i dreulio eu hamser. Mae'r plant yn archwilio'r amgylcheddau dan do ac awyr agored, gan ddewis yn rhydd o amrywiaeth o weithgareddau ac adnoddau. Caiff eu dewisiadau a'u hanghenion unigol eu parchu a'u blaenoriaethu. Er enghraifft, mae'r babanod yn dewis eu harferion cysgu a bwydo eu hunain.

Mae gan y plant gydberthnasau agos â'r ymarferwyr ac maent yn cael cymorth a chysur, sy'n cyfrannu at eu llesiant. Mae bron pob un o'r plant yn ymdopi'n dda wrth gael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni a'u gofalwyr ac maent yn mynd ati i gymryd rhan yn y gweithgaredd chwarae o'u dewis yn gyflym. Mae'r plant yn datblygu ymdeimlad o berthyn wrth iddynt ddysgu i ddilyn trefn gyfarwydd o ddydd i ddydd. Er enghraifft, maent yn gwybod y dylent hongian eu cotiau a'u bagiau, cadw eu hesgidiau a gwisgo eu sliperi pan fyddant yn cyrraedd, ac maent yn gwneud hynny'n annibynnol.

Mae bron pob un o'r plant yn dechrau gwneud ffrindiau yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu. Er enghraifft, mae'r plant yn gweiddi enw eu ffrind yn llawn cyffro pan fyddant yn sylwi arnynt yn cyrraedd yr ystafell chwarae. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn chwarae'n hapus gyda'i gilydd neu ochr yn ochr â'i gilydd, ac yn dechrau cydweithredu a rhannu adnoddau yn dda. Er enghraifft, mae'r plant yn rhannu potiau, sosbenni a jygiau o ddŵr lliw i greu diodydd hud, ac maent yn gwneud lle i blant eraill ymuno. Mae llawer o'r plant yn dysgu sut i ystyried anghenion pobl eraill. Mae'r plant hŷn yn helpu'r plant iau i gwblhau gweithgareddau, megis plannu hadau a blodau.

Mae bron pob un o'r plant yn mwynhau eu chwarae ac yn ymgysylltu'n dda â'r gweithgareddau o'u dewis, gan gynnal eu diddordeb am gyfnodau priodol o amser. Er enghraifft, mae'r plant iau yn mwynhau gweithgaredd chwarae synhwyraidd â gronynnau reis lliwgar yn fawr, gan fynegi diddordeb wrth eu gweld yn llenwi cynwysyddion o feintiau gwahanol a gwylio gronynnau o reis yn syrthio o'u dwylo. Mae bron pob un o'r plant yn ymuno â'r gweithgaredd canu a'r symudiadau yn frwdfrydig, gan ddawnsio neu dapio gyda'r curiad.

Mae bron pob un o'r plant yn dangos lefel gynyddol o annibyniaeth yn ystod eu hamser yn y lleoliad ac maent yn cael llawer o gyfleoedd gwerth chweil i ddatblygu'r sgiliau hyn ymhellach. Er enghraifft, mae'r plant hŷn yn cwblhau tasgau hunanofal, megis sychu eu trwynau, golchi eu dwylo a helpu i baratoi a gweini eu prydau. Mae'r babanod yn ymarfer bwydo eu hunain yn ystod amser cinio, a rhoddir digon o amser a lle iddynt wneud hynny'n annibynnol. Mae pob un o'r plant yn arwain ac yn cyfarwyddo eu chwarae ac yn

dewis adnoddau fel y dymunant, gan fod yr holl deganau a'r gweithgareddau wedi'u gosod o fewn eu cyrraedd. Maent yn mwynhau datblygu amrywiaeth eang o sgiliau wrth iddynt chwarae, megis bod yn greadigol wrth dynnu lluniau neu ddefnyddio blociau i greu tyrrau uchel a phontydd.

## Dysgu (dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol):

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Y rheswm dros hyn yw nad oedd digon o blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg a gyllidir yn rhywle arall yn bresennol ar adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb i blant unigol gael eu hadnabod.

## Gofal a datblygiad:  Da

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o'u cyfrifoldebau i ddiogelu'r plant. Mae pob un o'r ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant diogelu perthnasol ac maent yn hyderus o ran y camau i'w dilyn pe bai ganddynt bryder am blentyn. Mae'r ymarferwyr yn goruchwylio'r plant yn dda ac yn cwblhau cofnodion perthnasol, megis cofrestrau, cofnodion meddyginiaeth, a gwybodaeth am ddamweiniau a digwyddiadau, yn ddigon manwl. Mae pob un o'r ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig cyfredol sy'n eu galluogi i drin mân ddamweiniau yn hyderus. Mae'r ymarferwyr yn cynnal ymarferion rheolaidd ar gyfer gwagio'r adeilad os bydd tân, gan sicrhau bod pob aelod o'r staff a'r plant yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng. Mae'r ymarferwyr yn dilyn systemau effeithiol i reoli alergeddau ac anghenion iechyd y plant. O ganlyniad, mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo ffordd iach o fyw yn llwyddiannus ac yn rhoi arferion hylendid da ar waith. Er enghraifft, maent yn defnyddio cyfarpar diogelu personol yn effeithiol i atal y risg o groes-halogi ac yn annog yr holl blant i olchi eu dwylo pan fo angen. Mae'r ymarferwyr yn cynnig digon o gyfleoedd i'r plant wneud ymarfer corff a threulio amser allan yn yr awyr iach. Mae cogydd yn darparu amrywiaeth o brydau iach a maethlon a gaiff eu paratoi'n ffres. Mae'r ymarferwyr yn gwneud yn siŵr bod dŵr yfed ffres ar gael bob amser i'r plant wrth y gorsafoedd dŵr, gan sicrhau y gall y plant gael gafael arno'n annibynnol.

Mae'r ymarferwyr yn rhyngweithio â'r plant â chynhesrwydd a hoffter. Maent yn rhoi cysur a thawelwch meddwl iddynt ac yn trin y plant â gofal a pharch. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio strategaethau effeithiol a chyson i annog rhyngweithio cadarnhaol ac yn dangos sgiliau cymdeithasol cadarnhaol drwy gydol y dydd wrth iddynt chwarae ochr yn ochr â'r plant. Maent yn canmol y plant am rannu ac am fod yn garedig tuag at ei gilydd. Mae'r ymarferwyr yn rhoi cyfarwyddiadau clir mewn ffordd dyner wrth esbonio i'r plant sut y gall eu hymddygiad wneud i'w ffrindiau deimlo. Er enghraifft, pan fydd y plant yn ffraeo dros

deganau, maent yn eu helpu'n dawel i rannu ac yn esbonio pwysigrwydd ymddygiad caredig yn glir. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio arwyddion syml i gefnogi cyfathrebu â phlant nad ydynt yn siarad eto, sy'n eu helpu i fynegi eu hunain yn llwyddiannus.

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad y plant yn llwyddiannus. Maent yn casglu gwybodaeth fanwl am y plant cyn iddynt ddechrau yn y lleoliad ac yn rhannu gwybodaeth â'i gilydd pan fydd y plant yn symud i ystafell newydd. Mae hyn yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn parhau i ddiwallu anghenion unigol y plant yn effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn darparu gweithgareddau a phrofiadau y maent yn gwybod y byddant o ddiddordeb iddynt ac yn cefnogi eu datblygiad cyffredinol. Maent yn achub ar gyfleoedd i ddatblygu dysgu'r plant drwy sgyrsiau a gofyn cwestiynau effeithiol.  Mae'r ymarferwyr yn adnabod plant y gall fod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac yn eu cefnogi'n dda. Maent yn gweithio'n agos gyda'r rhieni, gofalwyr ac asiantaethau allanol i sicrhau'r cymorth a'r canlyniadau gorau i bob plentyn.

## Addysgu ac asesu (dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol): Da

Mae'r ymarferwyr yn darparu amgylchedd dysgu croesawgar sy'n annog y plant i fwynhau ac ymgysylltu'n llwyddiannus. Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn eu cefnogi a'u hannog yn briodol. Mae'r ymarferwyr wedi mabwysiadu'r cwricwlwm ac yn darparu ystod eang o brofiadau ystyrlon a dilys. Mae'r drefn o ddydd i ddydd yn hyblyg ac yn galluogi'r plant i chwarae a dilyn eu diddordebau eu hunain yn hyderus dan do ac yn yr awyr agored. Mae hyn yn sicrhau bod y dysgu yn gyfannol ac yn cefnogi datblygiad cyffredinol y plant yn dda.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio profiadau diddorol i'r plant gysylltu â byd natur a datblygu eu chwilfrydedd a'u dychymyg. Maent yn cynnig cyfleoedd dyddiol i'r plant arsylwi ar anifeiliaid fferm neu chwarae ochr yn ochr ag ieir y lleoliad. Mae'r ffocws cryf ar ddysgu yn yr awyr agored yn cefnogi dealltwriaeth y plant o'r byd, gan gynnwys planhigion, anifeiliaid a'r tymhorau, yn llwyddiannus.

Mae'r ymarferwyr yn cefnogi datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol y plant yn effeithiol. Maent yn annog y plant i ddangos caredigrwydd a pharch at ei gilydd a phob creadur byw. Er enghraifft, maent yn dangos i'r plant sut i ofalu am y coed y maent yn eu plannu neu sut i ofalu am aderyn sydd wedi'i anafu. Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd dyddiol i'r plant deimlo ymdeimlad o syfrdandod a rhyfeddod wrth iddynt ryngweithio â'r amgylchedd naturiol cyfoethog.

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo diwylliant Cymru mewn ffordd addas drwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi gyda'r plant a'u hannog i flasu bwyd Cymreig traddodiadol. Maent yn modelu rhai geiriau ac ymadroddion Cymraeg syml drwy bob sesiwn. Mae'r ymarferwyr yn canu caneuon bywiog yn Gymraeg, sy'n annog y plant i fwynhau'r iaith yn llwyddiannus. Mae'r

lleoliad yn cydnabod gwyliau o amrywiaeth o ddiwylliannau. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr a'r plant yn trafod gwisgoedd Indiaidd traddodiadol yn ystod Divali ac yn creu dawns â draig yn ystod y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.

Mae'r ymarferwyr yn fodelau rôl da o ran iaith ac yn cyflwyno geirfa newydd i'r plant wrth iddynt chwarae. Maent yn cynnig digon o gyfleoedd i'r plant rannu llyfrau a straeon ac yn darparu cyfleoedd buddiol i'r plant ddatblygu eu sgiliau gwneud marciau. Mae hyn yn dechrau cynnwys dulliau arloesol a chreadigol. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn cefnogi'r plant i gasglu mwyar duon o'r gwrychoedd cyn gwneud paent mwyar duon i'w ddefnyddio i wneud marciau.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd buddiol i'r plant wella eu dealltwriaeth fathemategol a'u sgiliau rhifedd wrth iddynt chwarae. Maent yn ennyn diddordeb y plant mewn defnyddio geirfa fathemategol yn effeithiol wrth iddynt archwilio yn y dŵr neu adeiladu â blociau. Mae'r ymarferwyr yn cynnig ychydig o gyfleoedd i ddefnyddio adnoddau digidol fel camerâu, ac yn modelu sut i ddefnyddio'r llechi cyfrifiadurol i chwilio am wybodaeth. Mae'r ddarpariaeth i gefnogi sgiliau corfforol y plant yn gryf. Mae'r plant yn datblygu gwydnwch a hyder wrth iddynt redeg gyda'i gilydd yn y cae mawr neu ddringo giât. Mae'r ymarferwyr yn darparu ystod eang o offer ac adnoddau, sy'n datblygu sgiliau motor manwl yn effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys morthwylion a thryweli, y mae'r plant yn eu defnyddio â rheolaeth dda.

Mae'r ymarferwyr yn darparu amgylchedd cadarnhaol lle caiff cyflawniadau a llwyddiannau'r plant eu dathlu. Maent yn chwarae ochr yn ochr â'r plant ac yn datblygu eu hyder drwy wybod pryd i gynnig cymorth a phryd i gamu'n ôl. Mae'r dull gweithredu hwn yn cael effaith gadarnhaol. Mae'r plant yn datblygu eu sgiliau meddwl yn dda ac maent yn dechrau gosod eu heriau eu hunain. Er enghraifft, mae'r plant yn rhoi cynnig ar ddulliau gwahanol ac yn dyfalbarhau wrth iddynt geisio gwneud twll yn y bwmpen fawr.

Mae'r ymarferwyr yn gwneud arsylwadau addas o chwarae'r plant ac yn eu cofnodi'n briodol. Maent yn defnyddio eu hasesiadau i ddarparu asesiad cychwynnol defnyddiol o ddysgu a datblygiad y plant. Fodd bynnag, mae'r arsylwadau parhaus o ddysgu ar gam datblygu cynnar ac nid ydynt yn llywio camau nesaf y gwaith cynllunio yn ddigon effeithiol.

## Yr Amgylchedd:  Da

Mae'r amgylchedd yn ddiogel. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y drysau allanol yn cael eu cloi bob amser ac maent yn cadw cofnod cywir o bob ymwelydd, felly dim ond personau awdurdodedig gaiff fynd i mewn i'r lleoliad. Mae'r arweinwyr wedi datblygu asesiadau risg effeithiol ar gyfer pob rhan o'r lleoliad ac unrhyw deithiau, sy'n dangos unrhyw beryglon posibl i ddiogelwch y plant a'r camau a gymerir i ddileu neu leihau'r risg i'r plant. Caiff yr

asesiadau risg hyn eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r ymarferwyr yn rhagweithiol o ran ymgymryd â gwiriadau diogelwch dyddiol o'r amgylchedd ac maent yn cwblhau asesiadau risg ar gyfer gweithgareddau penodol, gan sicrhau y caiff risgiau eu lleihau. Mae'r arweinwyr yn monitro ac yn rheoli gwiriadau diogelwch rheolaidd o'r adeilad yn effeithiol.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y lleoliad yn groesawgar ac yn cael digon o olau naturiol. Mae'r ystafelloedd chwarae wedi'u gosod mewn ffordd sy'n rhoi digon o le i'r plant symud o gwmpas a chwarae yn rhydd. Mae'r arweinwyr yn creu ymdeimlad o berthyn drwy ddarparu pegiau cotiau unigol ac arddangos gwaith y plant er mwyn dathlu eu cyflawniadau yn effeithiol. Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr wedi datblygu'r ardaloedd fel bod amrywiaeth o deganau, adnoddau a gweithgareddau diddorol ac sy'n briodol o ran camau datblygiad ar gael i'r plant, a gallant gael gafael arnynt yn hawdd ac yn annibynnol. Mae cae mawr ar gael i'r plant lle ceir fferm fach gydag asynnod, ieir ac alpacaod y maent yn rhyngweithio â nhw ac yn helpu i ofalu amdanynt. Mae'r arweinwyr yn sicrhau y gall y plant cyn oed ysgol fynd allan i'r awyr agored ym mhob tywydd drwy ddefnyddio'r ardal gysgodol sydd union y tu allan i'r ystafell chwarae. Mae adnoddau cyffrous ar gael i'r plant yn yr ardal hon, gan gynnwys blociau chwarae a deunyddiau gwaith coed. Gall y plant iau chwarae yn y cae mawr a defnyddio ardaloedd chwarae awyr agored sydd union y tu allan i'w hystafelloedd chwarae. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau eu bod yn defnyddio'r ardaloedd hyn yn dda i hyrwyddo datblygiad a llesiant corfforol y plant.

Mae'r arweinwyr yn darparu dodrefn, teganau ac adnoddau o ansawdd da, y mae rhywfaint ohonynt yn hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol a threftadaeth Cymru yn effeithiol. Mae amrywiaeth o ddeunyddiau ac adnoddau naturiol i'r plant eu defnyddio mewn ffyrdd amrywiol, ynghyd ag adnoddau go iawn yn yr ardal chwarae rôl. Mae hyn yn helpu'r plant i ddysgu i ofalu am bethau, eu trin â pharch a defnyddio eitemau yn ddiogel, er enghraifft, bod yn ofalus wrth ymdrin â llestri go iawn. O ganlyniad, mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd i'r plant sy'n cefnogi llawer o'u hanghenion dysgu a datblygiad yn dda. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y rhan fwyaf o'r adnoddau a'r cyfarpar mewn cyflwr da. Fodd bynnag, mae ôl traul ar rywfaint o'r cyfarpar yn ardaloedd chwarae awyr agored y plant iau ac nid yw'r ardaloedd yn hyrwyddo pob maes dysgu yn ddigon da.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae'r arweinwyr yn rhannu gweledigaeth glir i'r lleoliad ddarparu amgylchedd diogel lle mae dysgu yn hwyl a lle mae'r plant yn cael profiad o'r byd naturiol. Maent yn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau ar waith i helpu i redeg y lleoliad o ddydd i ddydd. Caiff y rhain eu hadolygu'n rheolaidd ac maent ar gael i'r staff a'r rhieni. Mae'r arweinwyr yn gwneud yn siŵr bod y datganiad o ddiben yn glir ac yn rhoi darlun cywir o'r lleoliad. Mae hyn yn helpu'r rhieni i wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â pha mor addas yw'r lleoliad ar gyfer eu plentyn.

Mae gan yr arweinwyr brosesau clir i werthuso gwaith y lleoliad. Mae ganddynt ddealltwriaeth gywir o gryfderau'r lleoliad a'r meysydd y mae angen eu datblygu ymhellach. Mae'r arweinwyr yn gosod targedau ar gyfer gwella sy'n cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau i'r plant, megis gwella'r amgylcheddau dysgu a darparu profiadau dysgu dilys. Maent yn ymateb i gyngor ac adborth gan asiantaethau allanol yn dda ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i'w helpu i lywio cynllun gwella'r lleoliad yn effeithiol. Mae hyn yn sicrhau gwelliannau parhaus, megis mabwysiadu'r cwricwlwm a gwella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad corfforol y plant.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod pob ymarferydd yn cwblhau hyfforddiant gorfodol ac yn darparu cyfleoedd buddiol iddynt ennill cymwysterau pellach yn rheolaidd. Mae'r staff sy'n gweithio gyda'r plant hŷn yn cael budd o'r amrywiaeth o hyfforddiant a ddarperir gan yr awdurdod lleol. Er enghraifft, ar ôl cwblhau hyfforddiant ar y cwricwlwm maent wedi addasu eu hymarfer mewn ffordd fuddiol.

Mae'r arweinwyr yn cynnal sesiynau goruchwylio rheolaidd a chyfarfodydd arfarnu blynyddol gyda'r ymarferwyr, sy'n arwain at nodau a chamau gweithredu y cytunir arnynt. Maent yn rhoi'r cyfle i'r ymarferwyr fyfyrio ar eu hymarfer, rhannu llwyddiannau a heriau a nodi anghenion dysgu proffesiynol yn y dyfodol yn effeithiol.

Mae'r arweinwyr yn cyfathrebu â'r ymarferwyr drwy gyfarfodydd rheolaidd a thrafodaethau anffurfiol. Maent yn ymrwymedig i feithrin ethos tîm ac maent yn cymryd camau i wella llesiant yr ymarferwyr. Mae'r rhan fwyaf o'r ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi gan yr arweinwyr. Fodd bynnag, mae rhai o'r ymarferwyr yn teimlo nad yw'r arweinwyr yn gwrando ar eu barn ddigon. Mae hyn yn cael effaith negyddol ar allu'r holl arweinwyr a'r staff i gydweithio fel tîm effeithiol.

Mae'r rhieni yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth a ddarperir yn y lleoliad ac maent yn fodlon ar y cynnydd y mae eu plant yn ei wneud. Mae'r arweinwyr yn cynnwys y rhieni mewn digwyddiadau rheolaidd, megis noson tân gwyllt a diwrnod mabolgampau, sy'n cefnogi ymdeimlad o gymuned yn effeithiol. Mae'r lleoliad wedi datblygu cysylltiadau cryf â'r ysgolion lleol ac mae hyn yn cynorthwyo cyfnod pontio cadarnhaol pan fydd y plant yn symud i gam nesaf eu haddysg.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac ar wefannau AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa pedwar pwynt:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac ymarfer parhaus cryf iawn |
| **Da** | Llawer o gryfderau, heb unrhyw feysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae'r cryfderau yn gwrthbwyso'r gwendidau ond mae angen gwneud gwelliannau |
| **Gwael** | Mae gwendidau pwysig yn gwrthbwyso'r cryfderau ac mae angen gwneud gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Prysg (o'r Saesneg i'r Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn am ddim: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant os bydd yr adroddiad hwn yn berthnasol mewn unrhyw iaith, ym mhob achos dan yr amod y caiff ei ailddefnyddio a/neu ei gyfieithu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd, ym mhob achos (gan gynnwys mewn achos o gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a nodi teitl yr adroddiad.

Dyddiad cyhoeddi: 16/01/2026